Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 31 March 2025 at 6.30 pm
## Hybrid Meeting Ostreme Centre and via Teams

**Councillors Present:** Carrie Townsend Jones (Chair), Phil Keeton (Vice Chair), Sara Keeton, and Helen Nelson

**Co-opted Members Present**: Eddie Hall

**Officers Present:** Kerry Grabham - Clerk and Ian Hughes – CSO

**EN2503-01** **Apologies:** None
Cllr Helen Nelson arrived at 6.35pm

**EN2503-02** **Declarations of Interest:** None

**EN2503-03** **Minutes of Previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 24th February 2025 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 24th February 2025 as a true record.

**EN2503-04** **Actions arising from Previous Meetings**
The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members. Discussions took place on a number of outstanding and proposed new actions.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

**EN2503-05** **Budget Monitoring Reports to 28/02/2025 - Paul Beynon, RFO**
Reports attached.

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been provided to Committee members.

No queries were raised with RFO or CSO prior to the meeting.

A discussion took place on delays taking place in relation to the implementation of initiatives due to SCC's backlog in progressing grant applications.

**RESOLVED:** to approve the budget monitoring report to 28th February 2025.

**EN2503-06** **Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:**
Summary of previous months activity and next steps for February. Report attached.

Robert Hernando, The Environmental and Sustainability Engagement Officer had previously provided his monthly report to committee members. No queries were raised with either The Clerk or CSO prior to the meeting

The Clerk whished to express her thanks to both Robert Hernando and Ashley Haynes for their endeavours in relation to the development of Jubilee Gardens. The Clerk is particularly grateful to Robert who took over the project from his predecessor and succeeded in progressing the project within a very short timescale prior to April 2025. The Clerk's comments were subsequently endorsed by The Chair, Cllr Townsend Jones who also thanked Robert and Ashley on behalf of the Committee and MCC.

The Clerk stated that Norton Nature Reserve will be undergoing an evaluation on 10th April 2025 between 10am and noon and that as many of the committee should attend as possible. It was proposed that on the 10th April the Environmental Committee should visit Jubilee Gardens as a group to view the progress made.

**RESOLVED:** That as many of the committee as possible visit Jubilee Gardens and Norton Nature Reserve on 10th April 2025 to witness the progress of Jubilee Gardens and support the evaluation of Norton Nature Reserve respectively.

**ACTION:** CSO to upload EO's report onto Teams for Full Council Meeting

**EN2503-07** **Grass Verge Scheme**
Agreement has been reached with SCC regarding planting on grass verges. A discussion took place on the best type of planting to take place including the use of perennials and plants best suited for biodiversity and pollinating requirements. In addition, locations including those in Mayals and Fairwood Road discussed.

**ACTION:** Ashley Haynes to be responsible for the progression of Grass verge Scheme in consultation with committee members.

Signed by Chair

## EN2503-08 Mumbles Gardeners Question Time Feedback

The general consensus of the committee was that Mumbles Gardeners Question Time (MGQT) had been a great success. There were issues connected to the power supply in the kitchen but these were overcome through the resourcefulness of the Clerk and Diane who were still able to provide refreshment at the interval.

During the discussion it was suggested that a period of reflection time, perhaps an hour should be allocated for 'mingling' between the speakers and the audience after the question session. Other considerations included planning well ahead for future events so as to avoid potential clashes with other events and ensure the availability of officers to staff the events. The Clerk informed the committee that a 'Calander of Events' will be introduced in the near future to ensure that events such as MGQT are highlighted in advance. Future dates and venues were also discussed.

**RESOLVED:** Following the great success of MGQT, this should be annual event with a provisional date of 26th March 2026 set for the next event.

## EN2503-09 Mumbles Crop Collective

Documents pertaining to Mumbles Crop Collective had been circulated to members prior to the meeting. The Clerk informed the committee that the local business, Cash Hardware will be participating in the initiative.

The Chair, Cllr Townsend Jones outlined that the list of locations for this project would include The Ostreme Centre, and Norton Nature although the full list has yet to be finalised. This worthwhile scheme is at a preparatory stage for the forthcoming pilot scheme.

## EN2503-10 Bee Friendly Streets

Cllr Townsend Jones informed the committee that this project only awaits the publicity leaflet. Robert Hernando had informed the Clerk that the preparation for the leaflets is complete and will be published and distributed imminently.

Signed by Chair

## EN2503-11 City Nature Challenge 25 and Earth Day April 22nd

The Clerk outlined that this event will take place at Norton Nature Reserve and is organised by MCC and is part of the City Nature Challenge which in turn is part of a four day bio global blitz coordinated by SCC. The aim is to identify as many different species of plant within the reserve and the event will be publicised through MCC Website and social media.
A discussion followed on the opportunity to fulfil a previous idea of holding plant swap events.

**ACTION**: Robert Hernando to identify a suitable date for MCC to host a plant swap event

## EN2503-12 Mumbles Buzz and Bloom

The Chair, Cllr Townsend Jones stated that leaflets had not been prepared in time for the launch of Mumbles Buzz and Bloom at Mumbles Gardeners Question Time on 28th March 2024.

The Clerk confirmed that the categories had been confirmed and that efforts were now focused on publicising the event and obtaining as many nominations as possible. In addition to individuals nominating themselves, individuals should also be nominated through a third party provided the person concerned was prepared to participate.
Feedback from MGQT revealed that a number of residents particularly elderly ones had difficulty with using QR codes to register for MCC events. To address this a 'drop box' at Ostreme will be installed, the event advertised at key locations such as The Library and consideration is being given to informing the public on the use of QR codes at a future Coffee with Friends Meeting. This would be led by Age Cymru who would facilitate other IT functions.
Nominees should also be encouraged to photograph their displays over a period of time to accurately reflect their garden.

## EN2503-13 Climate Emergency Action (Water Quality Testing Project) Update

The Clerk outlined that Robert Hernando had been unsuccessful in registering for free for the forthcoming event. Participating would entail the cost of a testing kit ranging from £650 in price. However Robert will endeavour to register at a future event in September.
During discussion the committee considered that in the event of the sample kits being suitable for multiple testing, and not single usage, then MCC should consider their purchase and monitor water quality throughout the area of MCC.

**ACTION**: Robert Hernando to establish whether the testing kits for water testing are single or for multiple usage.

**EN2503-14** **Litter Free Zones and Monthly Litter Pick Dates**

A discussion took place on the most suitable days for litter picks. Due to the availability of Councillors and other considerations including combining litter picks with other events no fixed day was agreed.

**RESOLVED:** To alternate litter pick days between either the 3rd or 4th Friday of each month and a Saturday or Sunday. Dates to be confirmed

.

**EN2503-15** **Engaging with Young People**

Cllr Sara Keeton outlined how she had discussed engaging young people with Jane Richmond of SCC. Great energy and enthusiasm was evident at events such as Youth Clubs when environmental issues have been discussed.
During the discussion that ensued a number of ideas were raised to engage with young people including utilising existing youth clubs, participation in August Fun Days and collaborating with any future Exist Skateboarding Safety Training at Mumbles Skatepark.

**RESOLV ED:** Opportunities to engage with young people to be discussed at April's Meeting.

**EN2503-16** **MCC Website – SA1 and Social Media**

The need for environmental issues to be promoted either through the existing MCC Website or a new dedicated environmental website deferred until April 2025 due to the impending appointment of a new IT contractor.

**Meeting ended at 7.34pm.**

**Next Meeting 28 April 2025**

Draft

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2025 am 6.30 pm
## Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Phil Keeton (Is-gadeirydd), Sara Keeton a Helen Nelson

**Aelodau cyfetholedig yn bresennol:** Eddie Hall

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – Clerc, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**EN2503-01** **Ymddiheuriadau:** Dim
Cyrhaeddodd y Cynghorydd Helen Nelson am 6.35pm

**EN2503-02** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**EN2503-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2025 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2025 fel cofnod cywir.

**EN2503-04** **Camau'n codi o gyfarfodydd blaenorol**
Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' a oedd heb eu cwblhau i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Cafwyd trafodaethau ar nifer o gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, a chamau gweithredu newydd arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

**EN2503-05** **Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 28 Chwefror 2025 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**
Adroddiadau wedi'u hatodi

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau gyda'r Swyddog Cymorth Ariannol na'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau cyn y cyfarfod.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch yr oedi sy'n digwydd mewn perthynas â gweithredu mentrau oherwydd bod ôl-groniad gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe yn prosesu ceisiadau am grantiau.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb tan 28 Chwefror 2025.

**EN2503-06**

**Swyddog Amgylcheddol – adroddiad misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**
Crynodeb o weithgarwch y misoedd blaenorol a'r camau nesaf ar gyfer mis Chwefror. Adroddiad wedi'i atodi.

Roedd Robert Hernando, y Swyddog Ymgysylltu Amgylcheddol a Chynaliadwyedd wedi darparu ei adroddiad misol i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gyda'r clerc na'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau cyn y cyfarfod.

Dymunodd y clerc ddiolch i Robert Hernando ac Ashley Haynes am eu hymdrechion mewn perthynas â datblygu Gerddi Jiwbilî. Mae'r clerc yn arbennig o ddiolchgar i Robert a gymerodd awenau'r prosiect gan ei ragflaenydd ac a lwyddodd i symud y prosiect ymlaen o fewn amserlen fer iawn cyn mis Ebrill 2025.
Cafodd sylwadau'r clerc eu cymeradwyo wedi hynny gan y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, a ddiolchodd hefyd i Robert ac Ashley ar ran y pwyllgor a Chyngor Cymuned y Mwmbwls.

Dywedodd y clerc y bydd Gwarchodfa Natur Norton yn cael ei gwerthuso ar 10 Ebrill 2025 rhwng 10am a hanner dydd ac y dylai cynifer o aelodau'r pwyllgor â phosibl fynychu. Cynigiwyd y dylai'r Pwyllgor Amgylcheddol ymweld â Gerddi Jiwbilî fel grŵp ar 10 Ebrill i weld y cynnydd a wnaed.

**PENDERFYNWYD:** Bod cynifer o aelodau'r pwyllgor â phosibl yn ymweld â Gerddi Jiwbilî a Gwarchodfa Natur Norton ar 10 Ebrill 2025 i weld cynnydd Gerddi Jiwbilî a chefnogi gwerthusiad Gwarchodfa Natur Norton yn y drefn honno.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn uwchlwytho adroddiad y Swyddog Gweithredol ar lwyfan Teams ar gyfer cyfarfod y cyngor llawn

**EN2503-07** **Cynllun Llain Las**



Draft

Mae cytundeb wedi'i gyrraedd gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch plannu ar leiniau glas. Cynhaliwyd trafodaeth ar y math gorau o blannu gan gynnwys defnyddio planhigion lluosflwydd a phlanhigion sydd fwyaf addas ar gyfer bioamrywiaeth a gofynion peillio. Yn ogystal, trafodwyd lleoliadau gan gynnwys y rhai yn Mayals a Fairwood Road.

**CAM GWEITHREDU:** Ashley Haynes i fod yn gyfrifol am ddatblygiad y Cynllun Llain Las mewn ymgynghoriad ag aelodau'r pwyllgor.

**EN2503-08**

### Adborth Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls

Y consensws cyffredinol oedd bod Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls wedi bod yn llwyddiant ysgubol.  Roedd problemau'n gysylltiedig â'r cyflenwad pŵer yn y gegin ond cafodd y rhain eu goresgyn trwy ddyfeisgarwch y clerc a Diane a oedd yn dal i allu darparu lluniaeth yn ystod yr egwyl.

Yn ystod y drafodaeth awgrymwyd y dylid neilltuo cyfnod o amser myfyrio, efallai awr, ar gyfer 'cymysgu' rhwng y siaradwyr a'r gynulleidfa ar ôl y sesiwn holi. Roedd ystyriaethau eraill yn cynnwys cynllunio ymhell ymlaen llaw ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol er mwyn osgoi gwrthdaro posibl â digwyddiadau eraill a sicrhau bod swyddogion ar gael i staffio'r digwyddiadau. Hysbysodd y clerc y pwyllgor y bydd 'calendr digwyddiadau' yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol agos i sicrhau bod digwyddiadau fel Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls yn cael eu hamlygu ymlaen llaw. Trafodwyd dyddiadau a lleoliadau yn y dyfodol hefyd.

**PENDERFYNWYD:** Yn dilyn llwyddiant mawr Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls, dylai hwn fod yn ddigwyddiad blynyddol gyda dyddiad dros dro o 26 Mawrth 2026 wedi'i bennu ar gyfer y digwyddiad nesaf.

**EN2503-09**

### Cydweithfa Cnydau'r Mwmbwls

Roedd dogfennau yn ymwneud â Chydweithfa Cnydau'r Mwmbwls wedi'u dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Hysbysodd y clerc y pwyllgor y bydd y busnes lleol, Cash Hardware, yn cymryd rhan yn y fenter.

Nododd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, y byddai rhestr y lleoliadau ar gyfer y prosiect hwn yn cynnwys Canolfan Ostreme, a Gwarchodfa Natur Norton er nad yw'r rhestr lawn wedi'i chwblhau eto. Mae'r cynllun gwerth chweil hwn yng nghyfnod paratoi ar gyfer y cynllun peilot sydd ar ddod.

**EN2503-10**

### Strydoedd sy'n Hybu Gwenyn

Hysbysodd y Cynghorydd Townsend Jones y pwyllgor mai dim ond y daflen gyhoeddusrwydd sydd ar ôl ar y prosiect hwn. Roedd Robert Hernando wedi hysbysu'r

clerc bod y paratoadau ar gyfer y taflenni wedi'u cwblhau a byddant yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu'n fuan.

**EN2503-11** **Her Natur y Ddinas 2025 a Diwrnod y Ddaear 22 Ebrill**

Amlinellodd y clerc y bydd y digwyddiad hwn yn digwydd yng Ngwarchodfa Natur Norton ac wedi'i drefnu gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls ac yn rhan o Her Natur y Ddinas sydd yn ei thro yn rhan o ymgyrch bio fyd-eang pedwar diwrnod a gydlynir gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls. Y nod yw nodi cymaint o wahanol rywogaethau o blanhigion â phosibl o fewn y warchodfa a bydd y digwyddiad yn cael ei hysbysebu drwy wefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls a'r cyfryngau cymdeithasol.
Dilynwyd hynny gan drafodaeth ar y cyfle i wireddu syniad blaenorol o gynnal digwyddiadau cyfnewid planhigion.

**CAM GWEITHREDU:** Robert Hernando i nodi dyddiad addas i Gyngor Cymuned y Mwmbwls gynnal digwyddiad cyfnewid planhigion

**EN2503-12** **Su'r Mwmbwls yn ei Blodau**

Dywedodd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, nad oedd taflenni wedi'u paratoi mewn pryd ar gyfer lansio Su'r Mwmbwls yn ei Blodau yn sesiwn Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls ar 28 Mawrth 2024.

Cadarnhaodd y clerc fod y categorïau wedi'u cadarnhau a bod ymdrechion bellach yn canolbwyntio ar roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad a chael cymaint o enwebiadau â phosibl. Yn ogystal ag unigolion yn enwebu eu hunain, dylid enwebu unigolion hefyd drwy drydydd parti cyn belled â bod yr unigolyn dan sylw yn barod i gymryd rhan.
Datgelodd adborth gan Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls fod nifer o drigolion, yn enwedig rhai oedrannus, wedi cael anhawster defnyddio codau QR i gofrestru ar gyfer digwyddiadau Cyngor Cymuned y Mwmbwls. I fynd i'r afael â hyn, bydd 'blwch llythyrau' yn cael ei osod yn Ostreme, bydd y digwyddiad yn cael ei hysbysebu mewn lleoliadau allweddol fel y llyfrgell ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i hysbysu'r cyhoedd am ddefnyddio codau QR mewn cyfarfod Coffi gyda Chyfeillion yn y dyfodol. Byddai hyn yn cael ei arwain gan Age Cymru a fyddai'n hwyluso swyddogaethau TG eraill.
Dylid annog enwebeion hefyd i dynnu lluniau o'u harddangosfeydd dros gyfnod o amser i adlewyrchu eu gardd yn gywir.

**EN2503-13** **Diweddariad ar weithredu ar yr argyfwng hinsawdd (prosiect profi ansawdd dŵr)**

Amlinellodd y clerc nad oedd Robert Hernando wedi llwyddo i gofrestru am ddim ar gyfer y digwyddiad sydd ar ddod. Byddai cymryd rhan yn golygu talu cost pecyn profi sy'n

Signed by Chair

amrywio o £650 o ran pris. Fodd bynnag, bydd Robert yn ymdrechu i gofrestru mewn digwyddiad yn y dyfodol ym mis Medi.
Yn ystod y drafodaeth, ystyriodd y pwyllgor, pe bai'r pecynnau sampl yn addas ar gyfer profion lluosog, ac nid defnydd sengl, y dylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls ystyried eu prynu a monitro ansawdd y dŵr ledled ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**CAM GWEITHREDU:** Robert Hernando i sefydlu a yw'r citiau profi ar gyfer profi dŵr ar gyfer defnydd untro neu aml-ddefnydd.

**EN2503-14** **Parthau di-sbwriel a dyddiadau casglu sbwriel misol**

Cynhaliwyd trafodaeth ar y dyddiau mwyaf addas ar gyfer casglu sbwriel. Oherwydd argaeledd cynghorwyr ac ystyriaethau eraill gan gynnwys cyfuno casgliadau sbwriel â digwyddiadau eraill, ni chytunwyd ar ddiwrnod penodol.

**PENDERFYNWYD:** Cynnal diwrnodau casglu sbwriel bob yn ail naill ai rhwng trydydd neu bedwerydd dydd Gwener y mis a dydd Sadwrn neu ddydd Sul. Dyddiadau i'w cadarnhau

.

**EN2503-15** **Ymgysylltu â phobl ifanc**

Amlinellodd y Cynghorydd Sara Keeton sut yr oedd hi wedi trafod ymgysylltu â phobl ifanc gyda Jane Richmond o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Roedd egni a brwdfrydedd mawr yn amlwg mewn digwyddiadau fel clybiau ieuenctid lle trafodwyd materion amgylcheddol.
Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, codwyd nifer o syniadau i ymgysylltu â phobl ifanc gan gynnwys defnyddio clybiau ieuenctid presennol, cymryd rhan mewn Diwrnodau Hwyl ym mis Awst a chydweithio ag unrhyw Hyfforddiant Diogelwch Sglefrfyrddio Exist yn y dyfodol ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls.

**PENDERFYNWYD:** Trafod cyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc yng nghyfarfod mis Ebrill.

**EN2503-16** **Gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls – SA1 a'r cyfryngau cymdeithasol**

Gohiriwyd yr angen i hyrwyddo materion amgylcheddol naill ai drwy wefan bresennol Cyngor Cymuned y Mwmbwls neu wefan amgylcheddol bwrpasol newydd tan fis Ebrill 2025 oherwydd penodiad contractwr TG newydd sydd ar ddod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.34pm.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf 28 Ebrill 2025**

Signed by Chair

Draft